OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3760 (Cy.309)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *20 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *18 Ionawr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru (**2**) ac ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Archwilio, unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol ac unrhyw gyrff cyfrifwyr y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 18 Ionawr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.** Yn y rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996(**3**).

### Datganiad o Gyfrifon

**3.** Mae Rheoliad 6 o Reoliadau 1996 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

Ym mharagraff (3)(k) dilëwch y geiriau "a probation committee,".

### Datganiadau Cyfrifydda Eraill

**4.** Mae Rheoliad 7 o Reoliadau 1996 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

Ym mharagraffau (3) a (4), yn lle "£5,000" rhowch "£50,000".

(**1**) 1998 p.18.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1996/672).
(**3**) O.S. 1996/590.

**Cyhoeddi'r Llythyr Archwilio Blynyddol**

**5.** Ar ôl Rheoliad 16 o Reoliadau 1996 mewnosodir—

"**Publication of Annual Audit Letter**

**16A.** As soon as reasonably possible after it is received a relevant body shall—

(a) publish the annual audit letter(**4**) received from the auditor; and

(b) keep copies available for purchase by any person on payment of a reasonable sum to be determined by the relevant body."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

20 Tachwedd 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) *Gweler* paragraffau 29 i 34 o'r Code of Audit Practice a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio ym mis Mawrth 2000.

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau'n gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 sydd, er eu bod wedi gwneud o dan ddeddfwriaeth flaenorol, wedi parhau mewn grym yn rhinwedd paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 (mesur cydgrynhoi).

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliad 6 o Reoliadau 1996 er mwyn hepgor y cyfeiriad at "a probation committee". Yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 gwelwyd disodli pwyllgorau prawf â byrddau prawf, nad ydynt yn dod o dan Reoliadau 1996.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliad 7 o Reoliadau 1996 i godi'r trothwy ariannol lle y mae'n ofynnol i'r cynghorau cymuned yng Nghymru baratoi cyfrifon incwm a gwariant o £5,000 i £50,000.

Mae Rheoliad 5 yn mewnosod gofyniad newydd yn Rheoliadau 1996, sef bod y cyrff perthnasol yn cyhoeddi'r llythyr archwilio blynyddol a gânt oddi wrth eu harchwilydd.